



**CCYSAGauC**

Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol  
Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

**WASACRE**

Wales Association of Standing Advisory  
Councils on Religious Education

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru**  
**Cyfarfod rhithwir Rhondda Cynon Taf**  
**trwy Zoom**  
**25 Hydref 2023**  
**10.30 am - 1.00 pm**

**Yn bresennol**

<p><b>Ynys Môn / Anglesey</b> Owen Davies (OD) Arfon Wyn (AW)</p> <p><b>Blaenau Gwent</b> Chris Abbas (CA) Hayley Jones (HJ) Kathy Riddick (KR)</p> <p><b>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend</b> Edward Evans (EE) Alice Parry (AP) Donna Graves (DG)</p> <p><b>Caerffili/ Caerphilly</b> Hayley Jones (HJ)</p> <p><b>Caerdydd / Caerdydd</b> Donna Graves (DG)</p> <p><b>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire</b></p> <p><b>Ceredigion</b></p> <p><b>Conwy</b> Phil Lord (PL)</p>	<p><b>Sir Ddinbych / Denbighshire</b> Jennie Downes (JD) Phil Lord (PL)</p> <p><b>Sir y Fflint / Flintshire</b> Vicky Barlow (VB) Dave Mackie (DM) Catherine McCormick (CM)</p> <p><b>Gwynedd</b> Paul Rowlinson (PR) Meryl Roberts (MR) Menna Baines (MR)</p> <p><b>Merthyr Tudful / Merthyr Tudful</b> Donna Graves (DG)</p> <p><b>Sir Fynwy / Monmouthshire</b> Louise Brown (LB) Hayley Jones (EAS)</p> <p><b>Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot</b> Nia Jenkins (NJ) Rachel Samuel (RS)</p> <p><b>Casnewydd / Newport</b> Hayley Jones (HJ)</p> <p><b>Sir Benfro / Pembrokeshire</b></p>	<p><b>Powys</b> John Mitson (JM) Fiona Thomas (FT) Caroline Davies (CD) Michael Williams (MW)</p> <p><b>Rhondda Cynon Taf</b> Mathew Maidment (MM) Martin Silezin MS Donna Graves (DG) <b>Dave a Jane</b></p> <p><b>Abertawe / Swansea</b></p> <p><b>Torfaen</b> Hayley Jones (HJ)</p> <p><b>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan</b> Donna Graves (DG) Kathy Riddick (KR) Tyler Saunders</p> <p><b>Wrecsam / Wrexham</b> Tania ap Siôn (TS) Libby Jones ( LJ )</p> <p><b>PYCAC</b> Paula Webber (PW)</p> <p><b>EFTRE</b> Phil Lord (PL)</p> <p><b>Consortiwm Canolbarth y De</b> Donna Graves</p> <p><b>EAS</b> Hayley Jones</p>	<p><b>Sylwedyddion:</b></p> <p><b>MAGC CBAC</b> Chris Owens (CO) Andrew Pearce (AP)</p> <p><b>ESTYN</b></p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b></p> <p><b>REC</b> Kathy Ruddick (KR)</p> <p><b>Yr Eglwys yng Nghymru</b></p> <p><b>Gwasanaeth Addysg Gatholig</b></p> <p><b>Cymwysterau Cymru</b> Kate Russell (KRU)</p> <p><b>Rhwydwaith Rhyng-ffydd</b></p> <p><b>ADEW</b> Prifysgol Cymru</p> <p>Prifysgol y Drindod Dewi Sant</p> <p><b>Cofnodion (o'r recordiad)</b> Jo Nicholls (JNI)</p>
--	---	--	---

## **Cofnodion y cyfarfod**

### **1. Cyflwyniad a chroeso**

Croesawodd TaS yr aelodau i gyfarfod yr Hydref a chroesawodd Martyn Silezin, Swyddog Strategaeth 14-19 yn Rhondda Cynon Taf (RhCT).

Rhoddodd Martin y cyflwyniad canlynol i'r cyfarfod:

Fel chi i gyd, mae RhCT wedi bod yn brysur iawn dros y flwyddyn ddiwethaf yn cefnogi ysgolion gyda'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Cwricwlwm i Gymru a'r newidiadau sy'n digwydd yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ar lefel ymarferol, rydym wedi creu cronfa o adnoddau ar gyfer ein hymarferwyr CGM, ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a digwyddiadau eraill, fel yr wythnos Ryng-ffydd a Diwrnod Cofio'r Holocaust. Sefydlwyd rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer arwain ac addysgu'r dyniaethau a CGM mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rydym hefyd wedi creu nifer o gyfleoedd rhwydweithio.

Yn ddiweddar, rydym wedi ymgymryd â nifer o brosiectau, ac mae hyn wedi cynnwys ein prosiect Athroniaeth i Blant a CGM mewn cydweithrediad â CYSAG. Rydym hefyd wedi cyflwyno prosiect dyniaethau digidol, lle buom yn archwilio sut i ymgorffori hynny yng nghwricwlwm y dyniaethau. Cawsom gyrsiau hefyd ar ddylunio cwricwlwm ar gyfer y dyniaethau a CGM. Mae gennym brosiectau cydweithio gwaith cymheiriaid uwchradd ac rydym newydd gwblhau prosiect ar CGM gwrthrychol, beirniadol a lluosog, ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru.

Rwy'n gyffrous iawn eleni ein bod wedi dechrau prosiect ar y cyd â Sefydliad Faraday, ac Ymgynghorydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg Consortiwm Canolbarth y De. Mae ysgolion yr ardal wedi cyfarfod. Rydym yn gobeithio dyfnhau'r ddealltwriaeth o sut mae gwyddoniaeth yn ffitio i fyd CGM ac i'r gwrthwyneb a datblygu deunyddiau yn unol ag anghenion y Cwricwlwm i Gymru. Os dymunwch gysylltu â ni ar ôl y cyfarfod hwn, byddwn yn fwy na pharod i ddweud wrthyfch yn fanylach beth sy'n digwydd yn RhCT.

Rydym hefyd yn benderfynol iawn eleni i sefydlu Fforwm Ieuencid. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried yn hanfodol i gefnogi llais y dysgwyr ac i'n helpu i ystyried sut y gellir clywed lleisiau ifanc mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar eu haddysg mewn addysg grefyddol, astudiaethau crefyddol, crefydd, gwerthoedd a moeseg, datblygiad ysbrydol, ac â materion sy'n gysylltiedig ag addoli ar y cyd. Yn dilyn ynysu Covid, credaf nad oes amser gwell i ni ddechrau hyn.

Yn anffodus, byddaf yn ymddeol ymhen wythnos. Rwy'n eich gadael i fyd sy'n llawn ansicrwydd. Rydych chi'n wynebu cyfnod anodd iawn, lle bydd digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn eich gadael â llawer o heriau. Rwyf wedi bod yn addysgwyr proffesiynol ers 43 o flynyddoedd, ac rwyf wedi gweithio yn rhai o ardaloedd ac ysgolion mwyaf tlawd Prydain ac nid wyf erioed wedi dod ar draws amser fel hwn gyda banciau bwyd mewn ysgolion.

Mae cyfarfodydd fel hyn mor bwysig i sicrhau bod y system addysg orau bosibl sy'n cynnig addysg gyfhwys i'n holl ddysgwyr yn dal i fodoli.

Diolchodd TaS i Martyn a dymunodd ymddeoliad hapus iddo. Yr agwedd bwysig ar ein hawdurdodau lleol yn cynnal y cyfarfodydd hyn yw ein bod yn clywed am y gwaith gwyh sy'n cael ei wneud. Os hoffech chi glywed mwy am y mentrau cyffrous hynny sy'n digwydd yn RhCT, cysylltwch â Donna Graves, cynghorydd RhCT.

### **2. Myfyrdod tawel**

Arweiniodd TaS fyfyrdod tawel i ganolbwyntio ar y cyfarfod sydd i ddod. Unwaith eto, yn y cyfarfod tymhorol hwn, rydym yn ymgynnull o bob rhan o Gymru gyda phwrpas cyffredin i weithio gyda'n gilydd i helpu i wasanaethu ein pobl ifanc a'n hysgolion lleol yn y ffordd orau,

a thrwy'r rheini ein cymunedau lleol. Boed inni fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno i ni heddiw a gweld gwerth ein cyfraniadau ein hunain oddi mewn iddynt.

### 3. Ymddiheuriadau

Dim wedi'u derbyn a dim wedi'u cofnodi yn y cyfarfod.

### 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Zoom, 19 Mehefin 2023

Aeth TaS drwy'r cofnodion o ran cywirdeb. Mae unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion i'w trafod ar wahân ar yr agenda.

Cododd trafodaeth ynghylch argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ar dudalen 3, y pedwerydd paragraff o'r gwaelod. Cytunwyd y dylid cynnal y drafodaeth hon y tu allan i'r cyfarfod presennol.

PL: Mae tudalen 4 yn nodi y byddai cyflwyniad Leah Crimes yn cael ei anfon at aelodau CCYSAGauC. Ydy hyn wedi digwydd?

LJ: Gofynnwyd am y cyflwyniad, ond ni dderbyniwyd. Bydd hyn yn cael ei ddilyn i fyny.

**GWEITHREDU** : LJ i atgoffa LC i anfon cyflwyniad cyfarfod yr haf i'w ddsbarthu i'r aelodau.

Tudalen 5: 'CARDARG' i'w newid i 'CYDAG'.

Gyda'r cywiriad CYDAG wedi'i wneud, cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod diwethaf. Bydd TaS yn llofnodi'r cofnodion ac yn eu hanfon at AP i'w ffeilio.

### 5. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi ar yr agenda.

Gellir trafod y cwestiwn am argyhoeddiadau athronyddol ac anathronyddol o'r cofnodion blaenorol y tu allan i'r cyfarfod hwn.

### 6. Materion Llywodraeth Cymru

Adroddodd LJ ar yr eitem hon. Cyfarfu cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (LIC) â swyddogion CCYSAGauC ar 5 Gorffennaf 2023. Yn bresennol o CCYSAGauC - TaS, AP, RS ac LJ ac o Lywodraeth Cymru - Lloyd Hopkin, Ceri Davis, a Caitlin Doyle.

Rhodddwyd sylw gofalus i'r **eitem gyntaf ar yr agenda, sef y crynodeb o'r ddeddfwriaeth, gyda chydweithwyr cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru**. Mae'r ddogfen hon yn gwneud gwaith ychydig yn wahanol i weddill y canllawiau. Ei diben yw datgan y sefyllfa gyfreithiol yn hytrach nag arwain athrawon ac mae cydbwysedd gofalus. Nid yw'n bolisi. Cafwyd diweddariad ym mis Ionawr 2023, lle gwnaed mân ddiwygiadau, a daliwyd rhai pethau gan y gwasanaethau cyfreithiol, er mwyn diogelwch. Cododd CCYSAGauC y cwestiwn a ddylai cosb gorfforol gael ei chynnwys fel enghraifft o euogfarn athronyddol. Cadwyd hyn i mewn oherwydd bod y gwasanaethau cyfreithiol yn teimlo ei fod yn dangos ehangder ystod o euogfarnau at ddiben CGM.

Soniodd Lloyd Hopkin, os yw CCYSAGauC yn gwybod am unrhyw effeithiau andwyol o gynnwys cosb gorfforol, yna mae angen inni ddarparu'r dystiolaeth honno i Lywodraeth Cymru.

Mae cynnwys Aleviaeth hefyd wedi'i gadw i mewn i ddangos nad dim ond y prif grefyddau y gall ysgolion eu harchwilio gyda'u dysgwyr. Soniodd y gwasanaethau cyfreithiol y gallai hyn hefyd fod yn gred yn lleol i rai ysgolion. Daw pob enghraifft o gyfraith achosion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae CCYSAGauC wedi gofyn i LH fynd yn ôl at y gwasanaethau cyfreithiol ynghylch y diffiniad o grefydd. Anfonodd LJ e-bost at LH i gael diweddariad ar y drafodaeth fewnol hon gyda'r gwasanaethau cyfreithiol ac mae'n aros am ymateb.

Yr **ail eitem** ar yr agenda oedd yr adolygiad anffurfiol o'r meysydd llafur cytunedig. Mae LIC wedi cytuno i gysylltu â phob ALI i ddiolch iddynt. LJ i wirio pryd y bydd y diolch hwn yn cael ei anfon. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi cytuno i gyflwyno adroddiad ar y pethau cadarnhaol o'r adolygiad hwn a'i rannu â ChYSAGau ac ACA.

Y **drydedd eitem** ar yr agenda oedd yr adolygiad o adroddiadau blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CCYSAGauC eu cefnogi gyda'r broses hon. Cytunodd CCYSAGauC i wneud hyn. Anfonodd LJ e-bost at gydweithwyr yn LIC i ofyn am ddiweddariad ar y gwaith hwn ac mae'n aros am ymateb.

Yr **eitem olaf** ar yr agenda oedd rhannu data, roedd peth dryswch ynglŷn â'r hyn y gellir ei rannu i CYSAGau a CYSau a beth all CYSAGau a ChYSau ei rannu yn yr adroddiad blynyddol. Dywedodd LIC ei fod yn dibynnu ar ddiben y data, er enghraifft, i gefnogi cynnydd dysgwyr, i gefnogi gwella ysgolion, ac ati. Yn dilyn y cyfarfod, anfonodd CCYSAGauC gais e-bost am fwy o eglurder. Derbyniodd LJ e-bost gan Sarah Angel gan LIC a rhoddodd LJ grynodedb ohono er eglurhad:

*Ailddechreuodd Llywodraeth Cymru adrodd ar ddeilliannau cyfnod allweddol pedwar ar lefel ysgol yn 2023, gan ddefnyddio'r dull a fabwysiadwyd yn 2019. Bydd gwybodaeth am y prif fesurau, sydd i gyd yn seiliedig ar sgoriau pwyntiau, ar gael i'r cyhoedd yn adroddiadau ystadegol Llywodraeth Cymru ac ar y wefan 'fy ysgol leol'. Roedd y prif fesurau yn cynnwys y mesur capio 9, mesur llythrennedd, mesur rhifedd, mesur gwyddoniaeth, a mesur tystysgrif her sgiliau Bagloriaeth Cymru.*

*Ailddechreuodd Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu setiau data craidd Cymru gyfan i bob ysgol ac awdurdod lleol. Bydd y trefniadau hyn am gyfnod interim, gan ddechrau gyda data canlyniadau o flwyddyn academaidd 2022 i 2023.*

*Disgwylid Llywodraeth Cymru yw y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall eu cyd-destunau eu hunain a gwella eu harlwy eu hunain. Ni ddylid defnyddio hwn ar ei ben ei hun i farnu perfformiad neu gymharu ysgolion. Bydd penderfyniadau ynghylch rhannu'r adnoddau hyn, a phriodoldeb gwneud hynny, yn nwylo ysgolion ac awdurdodau lleol. Dylid ystyried diogelwch unrhyw wybodaeth a allai gael ei datgelu gyda'r setiau data o ran adnabod dysgwyr unigol. Y cyngor i CYSAGau a ChYSau yw cael y sgwrs honno gyda'u cynrychiolwyr ALI i sicrhau nad yw'r data y maent yn ei rannu mewn cyfarfodydd ac yn eu hadroddiad blynyddol yn nodi dysgwyr unigol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cymharu ysgolion nac yn barnu perfformiad ysgolion.*

LB: A gaf i ofyn ble mae cosb gorfforol yn dod i mewn oherwydd nid yw'n ymddangos ar unrhyw restr yn y canllawiau deddfwriaethol.

LJ: Cytunwyd i wirio hyn y tu allan i'r cyfarfod ac adrodd yn ôl.

**GWEITHREDU:** LJ i rannu ymateb LIC gyda chlercod CYSAG.

**CAM GWEITHREDU:** LJ i wirio a yw cosb gorfforol yn dal ar y rhestr yn y canllawiau deddfwriaethol.

## **7. Adnoddau Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol**

TaS: Mae'r adnoddau Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn cael eu creu a'u cyhoeddi ar Hwb fel rhan o gydweithrediad rhwng CCYSAGauC a Llywodraeth Cymru (LIC). Gweithiodd CCYSAGauC yn galed iawn i gyflwyno achos i LIC dros greu adnoddau i gefnogi ymarferwyr sy'n darparu CGM. Mae'r adnoddau a'r meysydd a gwmpesir wedi'u nodi fel rhai sydd eu hangen ac wedi'u creu gan yr ymarferwyr eu hunain o bob rhan o Gymru. Adnoddau a arweinir gan ymarferwyr yw'r rhain ac mae arbenigwyr pwnc CCYSAGauC wedi bod yn cefnogi'r ymarferwyr yn ystod y broses hon.

LJ: Bydd rhestr chwarae llywodraethwyr yn mynd yn fyw ym mis Tachwedd a gall unrhyw un gael mynediad at y modiwl ond mae wedi'i deilwra'n benodol i lywodraethwyr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r modiwlau trawsgwricwlaidd yn cael eu gohirio ac yn dibynnu ar sylwadau'r grŵp cyfeirio. Mae LIC wedi gorfod recriwtio athrawon newydd i'r grŵp cyfeirio gan ei bod yn anodd cadw athrawon a oedd â'r gallu i barhau yn y grŵp. Mae CCYSAGauC wedi cefnogi LIC gyda'r recriwtio hwn. Nid oes gennym ddyddiad ar gyfer cyhoeddi'r modiwlau trawsgwricwlaidd eto, o bosibl yn gynnar yn 2024.

Mae cydweithwyr yn LIC wedi trafod y blaenoriaethau dysgu proffesiynol uniongyrchol yn fewnol a gyda chonsortia addysg. Mae LIC wedi datgan nad yw'n gallu ymrwymo i fodiwlau pellach ar hyn o bryd, yn enwedig wrth iddynt ystyried capasiti eu tîm, goblygiadau cyllideb, ac ati. Bydd LIC yn parhau i fonitro ymgysylltiad â'r modiwlau presennol ac edrych ar ffyrdd o hyrwyddo ymhellach y modiwlau penodol hyn. Mae LIC yn ystyried darn blog, sy'n amlygu sut mae ysgolion wedi bod yn defnyddio'r modiwlau, ynghyd â dysgu proffesiynol newydd eraill, fel modiwlau CCUHP a DARPL. Hoffent arddangos y rhain i ymarferwyr i ddangos sut y gallent ddymuno eu defnyddio yn eu hysgolion.

Bydd CCYSAGauC yn codi hyn fel mater penodol gan fod LIC wedi addo y byddai rhagor o fodiwlau ac mae CCYSAGauC yn credu bod angen modiwlau pellach. Os yw CYSau sy'n aelodau yn cytuno â hynny, yna mae hyn yn rhywbeth y gallai CCYSAGauC ei godi gyda LIC.

TaS: Dylid cwblhau a chyhoeddi'r holl fodiwlau y gweithir arnynt ar hyn o bryd. Yn y cynllun gwreiddiol, fodd bynnag, roedd modiwl dyniaethau a modiwl dilyniant yn mynd i fod, am amrywiol resymau, daeethant yn gydblededig. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod gennym y modiwl dilyniant o hyd a dweud wrth LIC fod hwn yn rhan o'r pecyn gwreiddiol.

PW: Awgrymu bod angen i ni gadw llygad ar unrhyw ddysgu proffesiynol sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer pynciau gorfodol eraill yn y cwricwlwm. A yw CGM yn cael ei drin yn deg?

TaS: Cadarnhawyd bod yr aelodau'n cytuno ag awgrym LJ o ddadlau'n gryf dros fodiwlau ychwanegol. Mae LIC yn edrych ar y defnydd o'r rhestrau chwarae. Mae'r ffigurau'n edrych yn dda ar Hwb, ond mae'n rhoi rhywfaint o gyfrifoldeb arnom i sicrhau bod ein hysgolion a'n hymarferwyr yn ymwybodol ohonynt. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i greu'r adnoddau hyn. Maent o ansawdd uchel; maent yn berthnasol yn lleol oherwydd y ffordd y cawsant eu sefydlu a'u hadeiladu. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n feirniadol â nhw, ac yn eu gwneud yn berthnasol, neu'n eu defnyddio yn ôl eu cyd-destunau lleol eu hunain. Byddai'n wych pe gallem eu hyrwyddo yn ein hawdurdodau lleol ac yn ein hysgolion lleol a cheisio cynyddu'r niferoedd sy'n eu defnyddio.

**GWEITHREDU** : Pob aelod i hyrwyddo'r rhestrau chwarae sydd i'w cael drwy ddefnyddio'r ddolen hon: <https://hwb.gov.wales/repository/resource/eef7e399-93bb-4d7c-ab68-145c93f4c6d3/cy/overview>

**GWEITHREDU**: CCYSAGauC i drafod gyda LIC yr angen am fodiwlau pellach.

## 8. Cynhadledd CCYSAGauC

TaS: Mae CCYSAGauC mewn cydweithrediad â PYCAG yn trefnu cynhadledd sylweddol ar gyfer 2024. Bydd y gynhadledd yn gyfle i ddathlu crefydd, gwerthoedd a moeseg a gwerth a hynodwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru. Mae'r gynhadledd hefyd yn mynd i roi cyfle dysgu proffesiynol sylweddol i'n haelodau CYS ac i'w holl ysgolion. Yn ogystal â chynnal cynhadledd undydd wyneb yn wyneb yn nhymor yr haf 2024, bydd cyfres o seminarau rhyngweithiol ar-lein, a fydd yn digwydd cyn ac ar ôl y gynhadledd.

Mae gweithgor CCYSAGauC wedi'i sefydlu ac mae wedi gwahodd Jeremy Miles, y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg, i fod yn brif siaradwr yn y gynhadledd wyneb yn wyneb. Rydym yn aros am ymateb. Rydym wedi cynnig mis Mehefin iddo. Bydd CCYSAGauC yn cadarnhau cyn gynted ag y bydd ymateb wedi'i dderbyn.

Rhannodd TaS logos y gynhadledd i'w defnyddio ar gyfer hyrwyddo. Diolchodd TaS i JD am ei gwaith ar greu'r logos.

Mae'r gweithgor am nodi meysydd ffocws posibl ar gyfer y seminarau rhyngweithiol ar-lein rhad ac am ddim. Daeth nifer o awgrymiadau i law, rhai ohonynt wedi dod gan GYSAGau a ChYSau lleol a'u hymgynghorwyr. Fodd bynnag, hoffem ymgysylltu'n llawnach â ChYSau yn y broses hon, i gael syniad go iawn o'ch anghenion lleol a'ch ymatebion i rai o'r awgrymiadau a wnaed eisoes.

Cynhaliodd TaS arolwg ar-lein a fydd yn cael ei ddsbarthu i bob aelod i gael adborth ar y syniadau ar gyfer seminarau'r gynhadledd. Bydd seminarau ar gyfer sawl cynulleidfa wahanol. Dolenni i'r arolwg i'w ddsbarthu ymlaen i ACA ac ymarferwyr:

Cymraeg: <https://forms.office.com/e/23GF0c9RUG>

Saesneg: <https://forms.office.com/e/u6HV5uNHY2>

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg fydd diwedd mis Tachwedd.

DG: Rydym yn cael cryn dipyn o ymholiadau ynglŷn â gweithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd. Gyda'r arolygon ysgol, mae hwn yn bwnc trafod.

LB: Mae'n edrych fel holiadur cynhwysfawr. O ran y cwricwlwm, Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ydyw yn y bôn. Roedd cwestiwn am athroniaeth i blant, nid wyf yn meddwl bod hynny'n angenrheidiol gan nad yw'n rhan o'r cwricwlwm CGM. O ran addoli ar y cyd, nid oedd gan y ddeddfwriaeth unrhyw newidiadau ar addoli ar y cyd, a ddylai fod yn gyffredinol Gristnogol ei natur o hyd.

PW: Holiadur da iawn. Mae Athroniaeth i blant yn ddull addysgegol sefydledig o addysgu. Byddwn yn edrych ar addysgeg yn ogystal â chwricwlwm a chan fod angen inni ymchwilio'n awr i sut y gellir cyflwyno'r cwricwlwm, dim ond un o'r dulliau y gellid ei ddefnyddio yw hwn.

PL: A oes cyfle i gynnig enwau i bobl gynnal y seminarau?

TaS: Derbynnir pob awgrym a gellir manylu arnynt yn yr arolwg.

**GWEITHREDU:** AP i e-bostio'r dolenni i holl glercod CYSAG cyn hanner tymor.

**GWEITHREDU:** Dolenni yn y ddogfen sgwrsio i'w ddsbarthu i aelodau.

## 9. Cymwysterau

- **Cymwysterau Cymru**
- **Cymhwyster cydraddoldeb ac amrywiaeth (ncfe)**

Cafwyd cyflwyniad dwyieithog gan RS ar y sefyllfa bresennol a'r camau nesaf. Bydd y cyflwyniad yn cael ei ddsbarthu i'r aelodau.

LJ: Gan na fydd asesiad arholi ar gyfer CGM unwaith nad oes cwrs byr rhwng 2025 - 2027, mae opsiwn gyda chymhwyster Agored 'Archwilio Bydolygon' lle'r asesis unedau gwaith cwrs. Cymhwyster Lefel 1 yw TGAU D - G a chymhwyster lefel 2 A\* i C. Mae'n opsiwn i ysgolion nawr a hyd at 2027. Nid yw'n gymhwyster arholiad, ond mae wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer CGM ac AG gan ddefnyddio'r hen feysydd llafur a'r rhai newydd.

MM: Byddwn yn edrych ar y cymhwyster Agored. Mae'n siomedig na chynhelir y cwrs byr bellach. Byddem yn gadael i'r holl ddisgyblion sefyll y cwrs byr, a'r rhai a wnaeth yn dda, ac a allai ymdopi, i fynd ymlaen i wneud y cwrs llawn. Roedd gennym gwricwlwm, a oedd yn canolbwyntio ar y disgybl i raddau helaeth, ac a oedd yn addas ar gyfer pob disgybl.

Rwy'n teimlo bod angen rhyw fath o gymhwyster, a fydd yn ysgogi disgyblion o ran crefydd orfodol, gwerthoedd, a moeseg. Y pryder sydd gennyf yw y gallai wedyn atal disgyblion rhag dewis y cwrs TGAU. Sut mae ysgolion yn mynd i reoli eu cwricwlwm ar gyfer y rhai sydd wedi dewis y TGAU? Onid ydynt yn cwblhau'r rhwymedigaeth orfodol? Rwy'n cymryd

bod gan y cymhwyster sgiliau dyniaethau elfen CGM ond nid yw'n ddigon i gyflawni'r gofynion CGM gorfodol.

Gydag elfennau gwaith cwrs Agored, efallai na fydd ar gael i bob disgybl oherwydd dim ond ychydig o athrawon sydd gennych i farcio'r gwaith cwrs a gallai fynd yn anhydrin.

RS: O'm dealltwriaeth o'r ymgynghoriad, bydd y cymhwyster gorfodol ar gael i lefel un ond nid i lefel dau.

TaS: Gofynnodd ymateb CCYSAGC i'r ymgynghoriad am gael hyd at lefel dau ar gyfer CGM, sy'n bwysig.

LB: Dim ond cipolwg cyflym a gafodd drwy'r ymgynghoriad hwn ond mae'n ymddangos yn fath cyffredinol iawn o gwricwlwm ac nid yw'n ymdrin â'r gofynion statudol o ran Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill ac ystod o argyhoeddiadau anathronyddol. Ni allaf hyd yn oed weld Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill yn cael eu crybwyll o gwbl. Felly, rwy'n meddwl nad yw'n bodloni'r gofyniad CGM statudol. Ni allaf ddeall pam ei fod wedi newid o'r ymgynghoriad gwreiddiol a oedd yn nodi meysydd pwnc penodol i gael sylw.

RS: Mae angen mwy o amser i adolygu'r ymgynghoriad yn fanwl. Rhaid inni fod yn ymwybodol mai ymgynghoriad a dogfen a ddatblygwyd gan CBAC yw hwn, tra bod yr ymgynghoriad ar y meini prawf cymeradwyo wedi'i arwain gan Cymwysterau Cymru. Mae pwrpasau gwahanol i'r ddwy ddogfen.

PW: Mae peidio â chael yr hen gwrs byr yn cael effaith ganlyniadol ar niferoedd Safon Uwch, israddedig, ac yna AGA. Pwy sy'n gyfrifol am yr ymateb i'r ymgynghoriad?

TaS: Cadarnhawyd y bydd CCYSAGauC yn drafftio ymateb ac yn ei ddsbarthu i GYSau lleol.

KR: Rwy'n meddwl bod yna ddatgysylltiad gwirioneddol rhwng y gofyniad statudol hwn ar gyfer CGM a'r TGAU Astudiaethau Crefyddol. Ni fydd yn bodloni'r gofynion statudol, ac ni fydd ychwaith yn cyflwyno pwnc sydd ar gael i bob plentyn yn 16 oed. Rwy'n teimlo pe bai dyluniad y TGAU newydd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r canllawiau CGM, ac yn darparu cymhwyster a oedd yn bodloni'r canllawiau CGM hynny, yn union fel y pynciau eraill, ni fyddem yn y sefyllfa lle rydym yn awr. Gwn mai dyna'r adborth a roesom i'r ymgynghoriad a ddaeth gan Cymwysterau Cymru. Mae'n ymddangos bod hyn bellach wedi mynd i lefel arall. Awgrymaf fod angen i CCYSAGauC ofyn am gyfarfod gyda CBAC neu Cymwysterau Cymru i drafod y mater. Hoffwn weld CCYSAGauC yn bod yn rhagweithiol yn y mater hwn.

RS: Yn awgrymu bod y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod i drafod hyn i ddechrau. Mae'n bwysig bod CCYSAGauC yn cadw'r llinellau cyfathrebu yn agored gyda Chymwysterau Cymru, CBAC, a'r holl bartion perthnasol eraill er mwyn llywio'r ffordd ymlaen.

TaS: Mae'n gymhleth ac mae safbwyntiau cryf. Cytuno i gyfarfod ag aelodau'r Pwyllgor Gwaith i drafod ymhellach. Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 15 Tachwedd 2023.

**GWEITHREDU:** RS i anfon e-bost at y Pwyllgor Gwaith yn gofyn am gyfarfod.

PW: Gan mai dim ond y bore yma y cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori, dydw i ddim wedi edrych arni'n fanwl. Fodd bynnag, rwyf yn bryderus iawn ynghylch troednodyn a geir yn y ddogfennaeth sy'n nodi '*bydd cynnwys y fanyleb yn cael ei yrru gan bwyslais ar gredoau, dysgeidiaethau ac arferion cynnwys crefyddol yn hytrach nag anghrefyddol oherwydd natur y pwnc.*' Byddwn yn annog CCYSAGauC i edrych ar y troednodyn hwnnw a sicrhau bod tegwch o ran agweddau crefyddol ac anghrefyddol yn cael eu hystyried yn unol â deddfwriaeth Llys Hawliau Dynol Ewrop.



KRU: Pwysleisiwyd nad yw Cymwysterau Cymru wedi gwneud penderfyniad eto. Rydym yn gweithio drwy ymatebion yr haf ac yn cynnal gwaith ychwanegol.

LB: Credaf fod Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill yn agwedd bwysig ar CGM. Rwy'n meddwl bod angen iddo bwysleisio bod yn rhaid cael ystod o gredoau anathronyddol oherwydd nid yw'n dweud, ystod o gredoau crefyddol yn y ddeddfwriaeth.

TaS: mae'n bwysig tynnu sylw at yr ymgynghoriad hwn gyda'ch CYS a'ch CYSAG lleol. Bydd CCYSAGauC yn rhannu ymateb drafft.

## **10. Cyflwyniad gan Alice Parry: Trwy lygaid athrawes: Adroddiad o Gynhadledd Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol (EFTRE)**

Adroddodd Alice Parry, Pennaeth Adran yn Ysgol Uwchradd Llanisien yng Nghaerdydd yn ôl o'i phresenoldeb ym 15fed cynhadledd EFTRE yn Rhufain a oedd yn dwyn y teitl 'Pontydd dros ddyfroedd cythryblus – AG mewn cyfnod o newid':

Cyflwyniad i'r gynhadledd: *Yn yr amseroedd presennol yn Ewrop mae'n hawdd teimlo fel pe bai sawl storm yn cyniwair ar unwaith, gyda chenedlaetholdeb cynyddol, polareiddio a lluosogi. Yn ogystal â'r newid yn yr hinsawdd, y pandemig ac nid lleiaf y rhyfel yn Wcrain, nid oes unrhyw foroedd tawel i'w gweld ar y gorwel. Her i bawb ac yn arbennig i'r plant a'r bobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn y cyfnod anodd hwn. Gall rhywun yn hawdd deimlo'n ddryslyd ac wedi'i lethu, fel pe bai'n cael ei wthio o dan y dŵr gan donnau'r datblygiadau hyn. Yng nghynhadledd EFTRE gyda'n gilydd, rydym yn chwilio am bontydd diogel i ddod o hyd i lwybr i ddyfodol mwy disglair, cael cyfleoedd i ddadansoddi sut y gallwn ni addasu i'r golygfeydd a'r cymdeithasau newydd yn yr Ewrop gyfoes hon.*

Roedd amrywiaeth o wahanol ddarlithoedd, gweithdai gwahanol, a gwahanol ymweliadau y gallai cyfranogwyr ddewis ohonynt. Roedd yn gyfle i gysylltu ag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill ledled Ewrop. Mynychais dair darlith a gweithdy allweddol, a hoffwn rannu'r hyn a ddysgais.

Sesiwn gyntaf - cynhaliwyd prosiect ymchwil gan bum ymchwilydd ar draws pum gwlad am effaith COVID a beth sy'n wirioneddol bwysig mewn AG. Pwrpas y prosiect oedd caniatáu i athrawon rannu eu profiad ac ysgogi myfyrdod ar addysg grefyddol, yn enwedig ar ôl y pandemig. Roedd yn galonogol i mi fel athro weld bod ymarferwyr eraill ar draws Ewrop hefyd yn dod o hyd i debygrwydd yn y profiad o symud ar-lein, profiadau am les myfyrrwyr a staff, cwestiynau bywyd a oedd yn codi, dealltwriaeth o addysg grefyddol, sefyllfaoedd athrawon, perthnasoedd, pwysigrwydd rhwydweithio, cydweithio, ond hefyd pwysigrwydd y berthynas athro/myfyriwr sydd gennych yn yr ystafell ddosbarth.

Daeth yr heriau hefyd â materion dirfodol lle cafodd myfyrrwyr eu galluogi i archwilio cwestiynau mawr bywyd. Ond hefyd, mae yna bynciau sensitif na ellir eu haddysgu a mynd atynt yn yr un modd trwy'r gofod ar-lein. Fe wnaeth Covid orfodi pobl i stopio, oedi a meddwl am natur y pwnc a sut mae o werth i fyfyrwyr. Dywedwyd bod athroniaethau'n dod yn fwy poblogaidd, bod ymchwydd mewn diddordeb ac mewn pobl yn cwestiynu eu pwrpas.

Yr hyn oedd yn braf am fynychu'r gynhadledd hon oedd cyfarfod ag athrawon o bob rhan o Ewrop, a rhannu profiadau o sut beth yw addysgu mewn gwahanol leoliadau, nid dim ond AG ond â logisteg cyffredinol yr ysgol yn ystod diwrnod y flwyddyn galendr, a sut mae pethau'n gweithredu mewn gwahanol gyd-destunau.

Arweiniwyd gweithdy arall a fynychais gan Marlene Printz Jellesen (MPJ) sy'n gweithio yn Nenmarc ac a wnaeth ei ddoethuriaeth PhD ar seciwlaireiddio a'r goblygiadau y gall naratifau penodol o seciwlaireiddio eu cael ar addysg grefyddol.

Cyflwynodd MPJ bedwar naratif o'r ddamcaniaeth seciwlaireiddio:



Y syniad, wrth addysgu, mai mater preifat yn unig yw crefydd, y gellid ystyried hyn fel rhywbeth nad oes iddo unrhyw ddiben mewn cymdeithas a gallai fod â goblygiadau i addysg grefyddol ddod yn bwnc tabŵ, fel y profodd yn Nenmarc. Dywedodd MPJ os yw crefydd yn cael ei hystyried yn fater preifat, y gall fod yn anodd cyfreithloni ei lle a'i gwerth yn ein gwlad. Yn yr achos hwnnw, ni fyddai'r ysgol yn darparu myfyrwyr ac yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y gymdeithas luosog a'r cwrpas ehangach.

Y syniad bod crefydd a ffydd yn groes i wybodaeth ac yn gallu achosi perygl. Soniodd MPJ sut y gall gwrthdaro godi rhwng crefydd a ffydd a gwybodaeth. A'r goblygiadau ar gyfer naratif Addysg Grefyddol yw y gellid ystyried crefydd yn hen ffasiwn ac yn rhywbeth o'r gorffennol lle'r oedd pobl yn gwybod llai yn hytrach na chynnig ymagwedd amlochrog a chyfoethog at ein bydolygon. O dan y ddysgeidiaeth naratif hon gallai addysgu seciwlareiddio gael ei weld fel rhywbeth sy'n gwrth-ddweud gwyddoniaeth ac mae gwyddoniaeth yn cael ei hystyried yn ffeithiol â gwirionedd, ond nid felly crefydd. Byddai problem i athrawon addysg grefyddol gyda'r naratif hwnnw.

Y syniad y gallai crefydd gael ei gwanhau ac y byddai gostyngiad yn aelodaeth sefydliadau crefyddol a chynnydd yn nifer y bobl heb unrhyw ymlyniad crefyddol. Yn yr achos hwnnw, y goblygiadau i Addysg Grefyddol fyddai y gallai disgyblion gael eu perswadio bod crefydd yn ffenomen hen ffasiwn, ei bod yn mynd i ddiflannu, ac mae perygl o drosglwyddo'r naratif hwnnw i fyfyrwyr a bod yn safbwynt rhy syml.

Y syniad bod crefydd yn ffenomen o amddifadedd. Roedd hyn yn gysylltiedig ag astudiaeth a rannodd gyda Phil Zuckerman yn Nenmarc a Sweden, sef y Theori Amddifadedd, y syniad o gymdeithas heb Dduw. Edrychodd yr astudiaeth ar bobl o Ddenmarc a allai fod ag ansawdd bywyd da iawn neu a allai fod yn hapus, hyd yn oed heb Dduw. Felly gallai hynny arwain at agwedd amddifadedd unochrog at grefydd. Rhannodd MJP fod myfyrwyr crefyddol yn beirniadu eu hathrawon am gefnogi'r cyflwyniad ystrydebol o grefydd fel ffenomen sydd wedi dyddio yn hanesyddol a phwysleisiodd bwysigrwydd rhoi'r dull lluosog ac amlochrog hwnnw i fyfyrwyr i ddeall crefydd ac anghrefydd trwy hynny.

Y drydedd sesiwn yr hoffwn ei rhannu gyda chi oedd un yn seiliedig ar gelf. Cyflwynwyd hon gan ddarlithydd ym Mhrifysgol Glasgow, Leon Robinson, am yr hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw a defnyddio gwaith celf mewn gwersi i ychwanegu rhywfaint o ddyfnder a chyfoeth at y cwricwlwm.

Gofynnodd LR inni feddwl am dri pheth yr ydych yn eu caru mewn bywyd, ond ni all fod yn bobl, ni all fod yn anifeiliaid anwes. Roedd yn rhaid iddo fod yn wrthrychau neu olygfeydd neu rywbeth felly a gofynnodd i ni rannu hynny gyda'r person nesaf atom.

Pwrpas hyn oedd bod LR eisiau i ni ddeall ac atgyfnerthu pwysigrwydd a chyfoeth gwrthrychau a gall hynny ddechrau gyda'r personol ac yna gallwch ganiatáu i fyfyrwyr werthfawrogi gwrthrychau crefyddol a sut rydym yn addysgu hynny drwy'r cwricwlwm.

Soniodd LR fod hyn yn dechrau gyda Hippocrates, a oedd yn sôn am y grefft sy'n cymryd amser hir, meistrolaeth gwaith a sut mae angen i ni ofyn i ni'n hunain, beth yw ein crefft? A beth ydyn ni am ei feistrolï. Ac fe gysylltodd â tsukumogami Japaneaidd sef y syniad, pan fydd gwrthrych wedi'i ddefnyddio ers 99 mlynedd, yn niwylliant Japan, y credir ei fod yn datblygu kami ac yn dod yn fyw.

Fe ymwelon ni â'r Fatican a gyda LR roeddem yn gallu archwilio'r celf yn y Fatican. Roedd y gwaith celf yr oeddem yn gallu ei weld yn gyfareddol, ac yn help mawr i mi, i feddwl sut rydw i'n mynd i ddefnyddio rhai darnau yn fy ngwersi wrth symud ymlaen.

Rwy'n teimlo'n hynod ffodus fy mod wedi cael y cyfle hwn i fod yn rhan o gynhadledd EFTRE i gwrdd â chydweithwyr ac i ddysgu gan eraill o gefndiroedd gwahanol, cyd-destunau gwahanol, lleoliadau gwahanol a dod â hynny yn ôl i fy ystafell ddsbarth.

TaS: Diolch Alice. Mynychodd LJ a TaS y gynhadledd hefyd, roedd yn hynod werthfawr.

PW: Rwy'n gobeithio y bydd cynhadledd CCYSAGauC yn yr haf yr un mor ysbrydoledig i'r athrawon sy'n mynychu. Efallai y gallwn ddysgu rhywbeth o'r cyflwyniad oherwydd roedd yn swnio'n wych. Diolch i chi, Alice.

VB: Diolch, Alice, mae'n wych dal yr eiliadau hynny o lawenydd a dod ag ychydig o lawenydd i bawb yn y cyfarfod hwn heddiw.

## **11. Estyn: cynlluniau arolygu 2024 – 2030**

Nid oedd cynrychiolydd Estyn yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Mae'r eitem hon wedi'i dwyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

## **12. Diweddariadau:**

### **- Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2023 (Tania ap Sion)**

Ni ddarparwyd diweddariad. Eitemau a gwmpesir ar agenda'r cyfarfod.

### **- CBAC (Christopher Owens)**

Yn ystod yr haf, cofrestrwyd ymgeiswyr ar gyfer yr holl bapurau yn astudiaethau crefyddol TGAU, ac eithrio Sikhaeth, lle nad oedd unrhyw gofrestriadau a dim ond un ymgeisydd a gafwyd y flwyddyn flaenorol. Mae'r ceisiadau'n aros yn sefydlog, ond bydd gen i fwy o wybodaeth ym mis Mawrth 2024 pan fydd y cofnod terfynol gennyf. Yn ddi-ddorol, ychydig iawn o geisiadau a gafwyd am adolygu'r marcio. Rydym yn gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol, yn yr ystyr efallai bod pobl yn hapus iawn â'r canlyniadau a gawsant o ran yr ymgynghoriad, sef amlinelliad o gymwysterau CBAC, nid yw'n fanyleb. Nid yw'n manylu ar y cynnwys o ran Cristnogaeth, crefyddau'r byd, safbwyntiau anghrefyddol ac ati. Byddwn yn edrych ar unrhyw sylwadau a ddaw i mewn gan athrawon a phartion eraill â diddordeb. Bydd y broses o ysgrifennu'r fanyleb yn dechrau ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben. Rydym wedi cael adborth y byddwn yn ei ystyried. Dywedwyd eisoes y bydd y cwrs byr yn gorffen yr hyn a ddaw yn bapurau TGAU etifeddol. Gofynnwyd i mi sôn bod cwrs llwybrau mynediad y dyniaethau yn cael ei gynnis gan CBAC, nid TGAU ydyw, mae'r cyfan yn seiliedig ar NEA, ond gellid ei ddefnyddio fel opsiwn.

Mae digwyddiadau dysgu proffesiynol CBAC yn cael eu cynnal y tymor hwn ar 8fed, 20fed, 21ain Tachwedd, a 7 Rhagfyr a digwyddiad CYDAG yng Ngogledd Cymru ar 8 Rhagfyr.

Yr unig beth arall y byddwn i'n ei ddweud am yr ymgynghoriad TGAU yw ein bod ni wedi cynhyrchu cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol. Ni fwriadwyd ac ni fu erioed fwriad i gyflawni unrhyw rwymedigaeth statudol, yn dilyn ymlaen o'r CGM.

KR: Mae'n ymddangos ei fod yn gyfle gwirioneddol a gollwyd. O dan y cwricwlwm newydd, mae gofyniad statudol am CGM fel pwnc academaidd. Mae'n un o'r pynciau yn y gyfres dyniaethau ochr yn ochr â Daeryddiaeth a Hanes ac Astudiaethau Busnes, ac mae gan bob un ohonynt eu TGAU unigryw yn gysylltiedig â'r pwnc hwnnw. Felly pam mae CGM yn cael ei drin yn wahanol gan nad yw'n cael TGAU priodol sy'n bodloni'r gofyniad i astudio? Gan mai dyma'r unig faes dyniaethau sydd â'r gofyniad hwnnw i'w astudio.

CO: Mae'r TGAU Astudiaethau Crefyddol yn eistedd o fewn pynciau opsiwn y dyniaethau. Mae TGAU Astudiaethau Crefyddol yn y cyd-destun hwn wedi bod yn bwnc dewisol erioed. Yn amlwg mae CGM yn statudol, ond mae'r opsiwn TGAU yn eistedd y tu allan i hynny, yr un fath â Hanes a Daeryddiaeth, nid oes rhaid i ddisgyblion wneud hanes na daeryddiaeth ym mlwyddyn 10 neu 11.

TaS: Ychwanegwyd bod llawer o ystyriaeth wedi bod ar hyn, a bod llawer o gyfarfodydd wedi eu cynnal i drafod y mater hwn gyda gwahanol bartion perthnasol.

LB: Bydd problem os nad yw'n cynnwys y gofyniad gorfodol. Mae'n mynd i atal dysgwyr rhag gwneud yr opsiwn hwnnw oherwydd bydd yn rhaid iddynt wneud y gofyniad gorfodol hefyd. Bydd yn ddwbl yr addysgu.

AP adborth o TGAU yr haf. Canran uchel o ymgeiswyr A-C ar lefel A ac UG . Da gweld ceisiadau ar gyfer holl grefyddau'r byd. Cafodd Astudiaethau Crefyddol ergyd enfawr o ran niferoedd UG yn ystod blynyddoedd COVID, rwy'n meddwl bod sawl rheswm am hynny. Credaf nad yw AG y math o bwnc y gallwch ei ddysgu yn rhithiol gartref. Mae angen i chi ryngweithio â'ch athro mewn ffordd nad oes ei angen arnoch efallai mewn pynciau eraill fel hanes neu ddaearyddiaeth.

Mae cofrestriadau TGAU wedi gostwng yn aruthrol. Rwy'n meddwl y byddant yn lleihau tua 6000 yr haf hwn.

Problem athrawon heb arbenigedd yn addysgu cyfnod allweddol tri a chyfnod allweddol pedwar.

Bydd diflaniad y cwrs byr yn cael effaith.

Mae yna gyrsiau cystadleuol fel troseddeg. Mae llawer o'r bobl a fyddai wedi cymryd AG ac yn cymryd troseddeg yn lle hynny. Os yw'r niferoedd UG yn mynd i lawr, mae'r niferoedd Safon Uwch yn mynd i ddilyn.

PL: A oes gostyngiad yn nifer y canolfannau yn yr ysgolion lle mae'r pwnc yn boblogaidd a fyddai wedi dod i mewn nad ydynt bellach yn dod i mewn a / neu a yw'r canolfannau hynny'n lleihau nifer y disgyblion y maent yn eu derbyn?

AP: Nid yw'n ostyngiad mewn canolfannau fel y cyfryw, mae'n fwy o ostyngiad yn y niferoedd o fewn pob canolfan. Tra yn y gorffennol, byddent wedi bod yn agos at yr 20, rydym yn cael niferoedd dan 10 mewn llawer o ganolfannau nawr.

PL: O gymharu â'r TGAU, dwi'n cymryd bod llai o ganolfannau yn cofrestru oherwydd y problemau gyda'r hen gwrs byr, er enghraifft. Roeddwn yn meddwl tybed, hyd yn oed os nad yw'n effeithio ar y ganolfan yn cofrestru ar gyfer Safon Uwch, bydd yn effeithio ar y niferoedd sy'n ei wneud?

AP: I ryw raddau hefyd. Fodd bynnag, os oes gennych 6000 yn llai o gofrestriadau ar gyfer TGAU yr haf hwn, yna llai o niferoedd UG. Bu cynnydd bach o 100 yn UG yr haf hwn, mae hyn yn dda oherwydd mae'n amlwg y bydd hynny'n arwain at flwyddyn 13. Bydd yn ddiddorol gweld a fydd y patrwm hwnnw'n parhau eleni.

TaS: Yn dilyn sgysiau gan PW a minnau, rydym yn ymwybodol iawn o'r materion ehangach yr ydych wedi'u codi o ran recriwtio athrawon, arbenigwyr ac ati.

Rwy'n meddwl mai mantais yr hyn yr ydym wedi'i glywed heddiw yw codi hyn ar agenda'r CYS ac ar agenda CCYSAGauC. Mae angen inni siarad ymhellach â PYCAG am sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r math hwn o argyfwng. Pa gamau rydyn ni'n mynd i'w cymryd a beth allwn ni ei wneud?

TaS: Diolchodd i CO ac AP am y diweddariadau.

#### - **REC (Kathy Riddick)**

Nid oes llawer o gyfarfodydd wedi bod ers i CCYSAGC gyfarfod ddiwethaf. Mae'r swydd gyfetholedig a hysbysebwyd ar gyfer arbenigwr mewn CGM i eistedd ar fwrdd y REC yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn mynd i benderfynu yr wythnos nesaf pwy fydd yn cael ei benodi i'r swydd honno. Mae'n swydd newydd a grëwyd i wneud yn siŵr bod y REC yn talu mwy o sylw i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru a chael rhywun sy'n arbenigo mewn CGM. Mae hyn yn welliant mawr, gan fod y REC yn gweld ei hun yn dymuno parhau i fod yn gorff cynrychioliadol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn nhymor cyntaf y flwyddyn nesaf bydd REC yn cyhoeddi'r adnodd drafft crefydd a bydolygon newydd, ac maent yn parhau i lobïo'r Adran Addysg yn Lloegr i newid enw'r pwnc i grefydd a bydolwg.

- **EFTRE (Phil Lord)**

Mae adnoddau ar gyfer y gynhadledd ar gael ar y wefan: <https://eftre.net/conference-in-rome-2023-15th>.

- **MAGC (Paul Morgan)**

Ni ddarparwyd diweddariad.

- **PYCAG (Paula Webber)**

Gohiriwyd cyfarfod PYCAG tan ar ôl hanner tymor. Mae PYCAG yn ymgysylltu â CCYSAGauC i drefnu cynhadledd CCYSAGauC. Cyfarfuom â Deborah Weston o'r REC a chael trafodaethau am y nifer sy'n dilyn TGAU, Safon Uwch ac AGA. Sylwch hefyd fod RS yn cynrychioli PYCAG yn ogystal â CCYSAGauC yng nghyfarfod Llywodraeth Cymru. Mae PW bellach yn aelod o'r grŵp cynghori ar gyfer datblygu'r Cymwysterau newydd gyda CBAC. Mae PYCAG yn bwriadu trefnu cyfarfodydd ychwanegol eleni.

- **Rhwydwaith Rhyng-ffydd (Libby Jones)**

Wythnos ryng-ffydd yw 12fed -19eg o Dachwedd 2023. Adnoddau [wythnos rhyng-ffydd](#). TaS: Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gethin Rhys (GR) o Cytûn a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru. Gyda'r cwricwlwm newydd, mae angen i ysgolion wybod sut a phryd i gysylltu â'u grwpiau ffydd. Mae GR yn awyddus i weithio gyda CCYSAGauC ac ysgolion lleol. Roedd cais penodol i CCYSAGauC ystyried ymuno â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru? Hefyd, cais gan Cytûn ynghylch y ffordd orau i helpu yng ngwaith CCYSAGauC. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r cynnig a bydd yn bwrw ymlaen â hyn.

### **13. Materion lleol / ymholiadau**

TaS: Mae hon yn eitem newydd ar yr agenda. Gwyddom fod CCYSAGauC yn gwneud llawer iawn o waith cenedlaethol a rhyngwladol ar ran CYS. Mae CCYSAGauC hefyd yn darparu cymorth ar lefel leol hefyd. Nid yw'r gwaith lleol hwn o reidrwydd yn weladwy, mae cael yr eitem hon ar yr agenda yn ffordd o ddarparu lle i ganolbwyntio ar y maes hwn o'n gwaith.

Rydym yn derbyn llawer o ymholiadau a chwestiynau gan CYS lleol ac ymgynghorwyr am ystod eang o bethau. Mae ein hymgyngorwyr ar y Pwyllgor Gwaith yn treulio amser yn trafod ac yn ymateb iddynt. Mae'r rhain i gyd o natur leol iawn, ond maent hefyd yn berthnasol yn ehangach.

Rhannodd TaS ddogfen a oedd yn dangos ystod o gwestiynau a ofynnwyd yn ddiweddar. Y nod yw llunio dogfen cwestiynau cyffredin y gellir ei harddangos ar y wefan.

Roedd y cwestiynau'n cynnwys rheoli ceisiadau i dynnu'n ôl o'r CGM gorfodol ar sail grefyddol, edrych ar ddysgu proffesiynol a'r hyn sydd ar gael i'w ddefnyddio fel cynghorydd CGM, pa gymwysterau eraill sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol Pedwar? Cyfarfodydd CYS / CYSAG. Mae gennym dipyn o geisiadau am dempledi ffurflenni.

Mae CCYSAGauC wedi penderfynu neilltuo amser ym mhob cyfarfod tymhorol i ganolbwyntio ar un neu ddau o gwestiynau a'u rhannu'n ehangach.

LJ: Wedi rhoi enghraifft o un cwestiwn. Anfonwyd cwestiwn gan ysgol a oedd wedi derbyn cais gan riant i dynnu eu plentyn yn ôl o CGM ar sail eu hunaniaeth grefyddol. Y cwestiwn oedd sut i reoli hyn gyda'r riant, oherwydd yn amlwg am flwyddyn arall, nid oes hawl i dynnu'n ôl.

Mae CCYSAGauC yn dal i weithio gyda'r awdurdod lleol hwnnw i ddod o hyd i ateb, ond rydym wedi rhoi gwahanol ddarnau o gyngor ar yr hyn y gellir ei wneud. Mae CCYSAGauC yn gwrando ar yr awdurdod lleol dan sylw ac yn cadw mewn cysylltiad â nhw ynghylch sut mae hynny'n cael ei weithredu a beth sy'n digwydd.

Bydd CCYSAGauC yn codi hyn gyda Llywodraeth Cymru yn un o'r cyfarfodydd rheolaidd. Gallai hyn fod yn fater ehangach ac nid yn ynysig. A oes unrhyw GYSAGau / CYS neu ALLau eraill wedi cael cwestiwn am hyn gan unrhyw un o'u hysgolion?

TaS: Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael gwybod am hyn wrth gyflwyno'r cwricwlwm. O'r sgwrs mae un rhiant yng Ngheredigion wedi gwneud cais tebyg i'r un cais ym Mhowys.

PL: Gofynnodd Cadeirydd CYSAG Conwy hyn i mi ddoe. Roedd yn rhaid i ni wneud adroddiad i'r awdurdod lleol ar y maes llafur cytunedig, un o'n cwestiynau oedd am alluogi tynnu'n ôl ar gyfer plant teithwyr a'r effaith y gallai hynny ei chael ar symud o'r ysgol yn gyfan gwbl. Sut ydyn ni'n mynd ati i ddod o hyd i ddata caled i'r cwestiwn hwn? A oes data ar gael o fewn awdurdod lleol ar dynnu plant o addysg? A oes unrhyw gysylltiadau rhwng hynny a CGM?

VB: Nid yw'n faes yr wyf yn ei gwmpasu ond rwy'n meddwl pan fydd rhieni'n rhoi rheswm pam y gallent fod yn symud eu plant i addysgu gartref, nid wyf yn meddwl y byddai CGM yn opsiwn a fyddai'n dod i fyny ac o bosibl y byddai'n cael ei gofrestru dan yr opsiwn 'arall'. Mae LIC yn cael datganiad ystadegol bob blwyddyn ar y data, ond nid wyf yn siŵr ei fod yn nodi CGM fel achos i dynnu allan o addysg.

KR: Mae hwn yn ymholiad ychydig yn wahanol a ddaeth i law gan riant anghrefyddol y gofynnodd ysgol Wirfoddol a Reolir iddynt dynnu eu plentyn allan er mwyn iddynt allu defnyddio CGM mewn gwersi i ddysgu dealltwriaeth. Mae'n amlwg nad yw hyn yn gywir, oherwydd nid yw CGM at y diben hwnnw a dylid dilyn y maes llafur cytunedig. Yn dilyn sgwrs gyda'r Cynrychiolydd esgobaethol yn yr ardal leol, cafodd y mater ei ddatrys, oherwydd dim ond ychydig o gymorth ychwanegol oedd ei angen ar yr ysgol. Pan fydd y materion hyn yn codi, mae'n bwysig bod lefel y ddeialog yno i wneud yn siŵr ein bod yn cefnogi ysgolion ac yn eu helpu i wneud hyn yn iawn.

#### **14. Gohebiaeth**

Dim, heblaw gohebiaeth a grybwyllwyd eisoes yn y cyfarfod.

#### **15. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)**

Ymunodd Caroline Davis â ni heddiw. Mae Caroline yn sylwedydd dyneiddiol ac mae ar CYSAG Powys.

TaS: Diolch yn fawr iawn am ddod i'r cyfarfod heddiw ac am eich cyfranogiad llawn. Diolch yn fawr i RhCT yr awdurdod lleol am gynnal. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi neu gynifer ohonoch â phosibl yn ein cyfarfod nesaf.

#### **16. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Nid oedd dyddiad na manylion lletywr ar gael ar adeg y cyfarfod.